LEWIS, THOMAS (fl. 1731-49), cyfieithydd a chynghorwr Methodistaidd

Enw: Thomas Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfieithydd a chynghorwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Dywedir ei fod yn frawd i John Lewis, argraffydd. Tybir mai ef a drosodd yn Gymraeg un o lyfrau Bunyan, sef *Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr. Drygddyn* (Caerfyrddin, 1731). Apwyntiwyd ef yn gynghorwr cyhoeddus yn sasiwn Watford, 1743, ond prin y gellir dweud mai ef yw'r 'Thos. Lewis' a ddewiswyd i gynghori'n breifat yn 'Pentruch' a 'Newhouse.' Y mae'n amheus hefyd ai ef ynteu Thomas Lewis, curad Merthyr Cynog (ficer Llanddew 1741-1783), yw'r gŵr a gyfrifid yn brif arolygwr seiadau Brycheiniog. Yn ddiweddarach yn 1743 fe'i penodwyd i arolygu'r seiadau rhwng y 'Passage' (dros Hafren) ac afon Wysg, ac i gynorthwyo'r brodyr Saesneg pan fyddai angen. Enwir rhyw Thomas Lewis yn aelod o sasiynau ym Morgannwg yn 1747-9 yn adroddiadau Thomas William, Eglwys Ilan.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts , (1904 - 1993)

Ffynonellau

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, v, 8; xxviii, 38-40; xxix, 28, 70-3, 134; xxx, 30

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 360

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932), 274, 278

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 205

Gweithiau

John Bunyan, Thomas Lewis, *Bywyd a marwolaeth yr annuwiol dan enw Mr. Drygddyn*(Caerfyrddin 1731)

William Dyer, Thomas Baddy (cyf.), Thomas Lewis (cyf.), *Cyfoeth i'r Cymru. Neu Dryssor y ffyddloniaid*(Caer 1714)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734494

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). LEWIS, THOMAS (fl. 1731-49), cyfieithydd a chynghorwr Methodistaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 7 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-THO-1731

Copïo'r Cliprwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government